Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Rwydwaith Addysg Gymunedol Gwynedd a Môn
# Coleg Menai
# Ffordd Ffriddoedd
# Bangor
# LL57 2TP

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Rhwydwaith Addysg Gymunedol Gwynedd a Môn

Sefydlwyd Rhwydwaith Addysg Gymunedol Gwynedd a Môn i ddechrau yn 2003. Yn ei ffurf bresennol, y ddau brif bartner cyflwyno yw dau goleg o Grŵp Llandrillo Menai (Coleg Menai a Choleg Merion Dwyfor), sy’n darparu tua dau o bob tri o’r cyrsiau a gyflwynir, ac Addysg Oedolion Cymru, sy’n darparu’r traean sy’n weddill. Caiff ychydig bach iawn o’r ddarpariaeth ei chynnig yn uniongyrchol gan gynghorau Ynys Môn a Gwynedd. Mae cadeirydd y bartneriaeth yn uwch arweinydd yn Grŵp Llandrillo Menai.

Yn 2017-2018, roedd gan y bartneriaeth tua 1,150 o ddysgwyr, sy’n rhan o duedd o ostyngiad yn nifer y cofrestriadau dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae’r bartneriaeth yn gwasanaethu ardal wledig yn bennaf, ac yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri. Mae rhannau o’r ardal, yn enwedig yn ne Gwynedd, yn denau ei phoblogaeth, ac mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus yn gymharol brin. Mae gan yr ardal rai o’r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae 57% o boblogaeth Ynys Môn, a 65% o boblogaeth Gwynedd yn siarad Cymraeg.

Mae cyfran gymharol uchel o drigolion Ynys Môn wedi ymddeol, sef 18%, o gymharu â chyfartaledd y DU, sef 14.7%. Mae cyfran Gwynedd ychydig yn is, sef 12%. Mae ardaloedd o amddifadedd ledled y siroedd, yn enwedig yn Llangefni, Caergybi, Caernarfon a Bangor. Ar draws y bartneriaeth, mae 31% o ddysgwyr ymrestredig yn byw mewn 40% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 34% o ddysgwyr yn ddi-waith neu’n anweithredol yn economaidd.

Grant dysgu cymunedol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-2019 oedd £7,033 ar gyfer Cyngor Gwynedd, ac £11,723 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae llawer o’r ddarpariaeth bresennol wedi’i lleoli ar gampysau’r coleg ar draws y siroedd, yn ogystal â lleoliadau cymunedol fel llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a safleoedd sefydliadau partneriaeth.

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig neu ymarferol cryf, a gwnânt gynnydd cadarn yn eu dysgu. Maent yn datblygu medrau defnyddiol mewn sesiynau ymarferol, yn ymarfer ac yn darganfod amrywiaeth o ddulliau mewn sesiynau rhifedd, ac yn defnyddio patrymau iaith, gramadeg a geirfa mewn Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn dda. Mae dysgwyr wedi ymddeol mewn lleoliadau cymunedol yn gwneud cynnydd cyson a chynaledig mewn datblygu gwahanol fedrau digidol dros gyfnod.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, a bod croeso iddynt yn y dosbarth. Maent yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn cymryd rhan yn dda mewn sesiynau. Maent yn gwneud ffrindiau newydd ac yn datblygu dyfalbarhad a gwydnwch. Maent yn magu hyder ar ôl profiadau dysgu gwael yn flaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu gwersi ag iddynt ddilyniant da a chyflymdra da sy'n helpu'r dysgwr i ddatblygu medrau, gwybodaeth a chymhwysedd dilyniannol. Maent yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda'u dysgwyr, ac yn ennyn eu diddordeb. Maent yn darparu adborth llafar defnyddiol a chalonogol ac maent yn monitro ac yn cynorthwyo dysgwyr yn dda wrth iddynt weithio.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod briodol o fedrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol, a chyrsiau SSIE, yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth y bartneriaeth wedi'i lleoli ym mhrif ganolfannau'r coleg, tra bod darpariaeth mewn canolfannau cymunedol eraill yn fwy cyfyngedig o ran nifer ac amrywiaeth.

Mae'r bartneriaeth yn cynorthwyo dysgwyr yn dda i oresgyn amrywiaeth o rwystrau rhag eu dysgu a'u datblygiad personol. Mae'r bartneriaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir â nodau, amcanion a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddiwallu anghenion llawer o ddysgwyr. Mae arweinwyr yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn dysgu oedolion yn dda, ac maent yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ar gyfer cyflogaeth leol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

A2 Gweithio gyda'r holl bartneriaid i adolygu a chynllunio darpariaeth gymunedol sy'n darparu ar gyfer anghenion yr ardal

A3 Gwella cyfleu cynnig y bartneriaeth i'r holl ddarpar ddysgwyr

A4 Gwneud defnydd llawn o safbwyntiau a chyfraniadau dysgwyr i ysgogi gwelliannau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig neu ymarferol cryf, ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mewn dosbarthiadau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd gwerth chweil. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio patrymau iaith, gramadeg a geirfa yn dda, yn briodol i’w lefel. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando’n ofalus, ac maent yn awyddus i gyfrannu ar lafar yn y dosbarth, ac ymgysylltu â’u tiwtor, ac â’i gilydd. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel mynediad yn datblygu medrau darllen sylfaenol yn briodol. Mae’r rhan fwyaf o’r dysgwyr lefel ganolraddol yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ystyr wrth ddarllen. Gallant ddarllen cyfarwyddiadau a’u paru’n gywir i frawddegau sy’n cyfleu’r un ystyr. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel mynediad a lefel cyn-mynediad yn gwneud cynnydd cadarn wrth ysgrifennu mewn sgript Saesneg, ac mae bron pob un o’r dysgwyr yn datblygu ac yn ymarfer ynganu yn dda, er enghraifft wrth wahaniaethu rhwng seiniau P a B.

Mewn sesiynau rhifedd, mae dysgwyr lefel 1 a 2 yn defnyddio, yn ymarfer ac yn darganfod amrywiaeth o ddulliau ar gyfer lluosi rhifau mawr a degolion. Maent yn dechrau deall sut gall taenlenni wneud cyfrifiadau yn awtomatig, trwy ddefnyddio fformiwlâu. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson, neu well, ac yn datblygu hyder a gallu, o ystyried eu profiadau anhapus blaenorol â mathemateg. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn cyflwyno eu gweithio mathemategol yn dda. Gall mwyafrif ohonynt wneud rhifyddeg pen yn fedrus wrth luosi cyfanrifau neu gyfeirio at dablau lluosi yn briodol.

Mewn sesiynau llythrennedd a chyfathrebu, mae mwyafrif y dysgwyr yn ysgrifennu’n dda, yn unol â’u lefel a’u gallu. Defnyddiant frawddegau sydd wedi’u llunio’n dda i ffurfio atebion ysgrifenedig byr i dasgau, er enghraifft wrth ddisgrifio hanes rygbi a phêl-droed yng Nghymru, a’u rôl yn niwylliant Cymru.

Mae dysgwyr wedi ymddeol mewn lleoliadau cymunedol yn defnyddio eu cyfrifiaduron llechen yn fedrus i chwilio ar safleoedd e-siopa neu restru eitemau i’w gwerthu. Maent yn ennill unedau i achredu eu cymhwysedd digidol, ac yn gwneud cynnydd cyson a chynaledig o ran caffael a datblygu gwahanol fedrau dros gyfnod.

Mewn sesiynau ymarferol, fel gwnïo, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau cryf wrth wnïo â llaw a defnyddio peiriant, yn defnyddio pwythau addurnol i wella eu cynnyrch, ac yn gwella eu medrau mesur a’u hymwybyddiaeth ofodol trwy baratoi a gosod patrymau a ffabrigau. Maent yn dysgu ffyrdd darbodus o gael a defnyddio defnyddiau.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y bartneriaeth yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol neu ddyddiaduron myfyriol i gynllunio a myfyrio ar eu dysgu yn dda, ac yn gweld eu bod o gymorth defnyddiol i fonitro eu cynnydd. Mae llawer ohonynt yn cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn dda, ac yn cynnal ffolderi trefnus, er bod ffolderi ychydig ohonynt yn anhrefnus, sy’n rhwystro gallu’r dysgwyr hyn i gynllunio a threfnu eu dysgu.

Ar draws y ddarpariaeth, mae dysgwyr yn siarad Cymraeg, ac yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol fel rhan o'u hastudiaethau. Mewn dosbarthiadau cymunedol, mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn siarad â'i gilydd ac â'u tiwtoriaid yn Gymraeg, ac yn newid yn rhwydd rhwng ieithoedd fel rhan o sgyrsiau dwyieithog. Mewn dosbarthiadau SSIE, lle gallai dysgwyr fod yn anghyfarwydd â'r Gymraeg, mae dysgwyr yn ennill dealltwriaeth o ymadroddion a chyfarchion Cymraeg sylfaenol y maent yn eu defnyddio fel rhan o'u gwersi a'u bywyd o gwmpas y coleg.

Mae'r data cyhoeddedig diweddaraf (Adroddiad ar Ddeilliannau Dysgwyr, 2017 – 2018) ar gyfer y bartneriaeth yn dangos bod dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ar y cyfan, ar gyfraddau sydd gyfwerth â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn dangos tuedd gynyddol anghyfartal dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae cyfraddau llwyddo yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc uwchlaw neu o fewn ychydig o bwyntiau canran i'r cyfartaledd cenedlaethol, ac ychydig iawn o feysydd yn unig sydd islaw cyfartaleddau cenedlaethol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'u gwaith, ac yn cymryd rhan yn dda mewn sesiynau. Maent yn rhyngweithio'n dda â dysgwyr eraill, yn cynorthwyo ei gilydd ac yn gwneud ffrindiau newydd. Dangosant barch ac ystyriaeth at gyfraniadau a barn ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dal ati i ganolbwyntio'n llwyddiannus yn ystod sesiynau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y dosbarth, a bod croeso iddynt. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn elwa ar gyfnod ymsefydlu defnyddiol, ac yn deall gweithdrefnau diogelu ac iechyd a diogelwch. Maent yn deall sut mae gwerthoedd fel goddefgarwch, a rhyddid oddi wrth fwlio, camdriniaeth gorfforol a geiriol yn ymwneud, nid yn unig â gweithgareddau dysgu, ond hefyd â bywyd teuluol, cymunedol ac amgylcheddau gweithleoedd.

Mae llawer o ddysgwyr sydd wedi cael profiadau dysgu gwael yn y gorffennol yn elwa ar fynychu cyrsiau fel 'Sgleiniwch eich Sgiliau' a 'Sgiliau ar gyfer Astudiaethau Pellach'. Mae llawer ohonynt yn dechrau datblygu dyfalbarhad a gwydnwch. Mae'r dysgwyr hyn yn magu hyder, a gall llawer ohonynt uniaethu'n well â phobl eraill ac integreiddio'n fwy llwyddiannus mewn cymdeithas o ganlyniad i'w dysgu. Mae llawer ohonynt yn magu hyder i fynd ymlaen at ddysgu arall, cymhwyso ar gyfer gwaith neu chwilio am swydd fwy boddhaus a chynaliadwy. Mae pob cwrs o'r math hwn wedi'i leoli ar safle'r coleg, a dywed ychydig o ddysgwyr, er eu bod yn gwerthfawrogi'r dosbarthiadau, fod y ffaith fod angen iddynt deithio ymhell yn effeithio ar eu lles.

Mae llawer o ddysgwyr mewn dosbarthiadau SSIE yn ymgymryd yn dda â gweithgareddau sy'n berthnasol i sefyllfa eu bywyd presennol. Mae'r dysgwyr hyn, y bu'n rhaid i lawer ohonynt ddechrau bywydau newydd mewn gwlad anghyfarwydd, ac ychydig o ffoaduriaid sydd wedi colli eu cartrefi gwreiddiol a'u busnesau, yn magu hunanhyder, ac yn dechrau adfer eu hunan-barch. Mae llawer o astudiaethau achos yn dangos sut mae dysgwyr wedi dod o sylfaen isel i fod yn fwy ffyniannus ac integreiddio mewn bywyd lleol.

Mae llawer o ddysgwyr yn y dosbarthiadau medrau cymunedol prin fel clytwaith a chwiltio a medrau peiriant gwnïo yn gweld eu dysgu yn therapiwtig. Er enghraifft,

mae dysgwyr sy'n gweithio mewn swyddi heriol, neu'r rhai â phroblemau iechyd meddwl ac afiechydon corfforol, yn gweld bod y cyrsiau'n lleddfu straen ac yn eu helpu i anghofio am eu gofidiau bob dydd. Mae ychydig o ddysgwyr sy'n ofalwyr amser llawn yn adrodd bod cynnydd yn ansawdd eu bywydau trwy fynychu dosbarthiadau, ac efallai mai dyma'r unig ryngweithio cymdeithasol a gânt y tu allan i'w cartref bob wythnos.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y ddarpariaeth yn defnyddio, yn ymarfer ac yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol yn naturiol trwy eu gweithgareddau dysgu. Mae llawer ohonynt yn ennill dealltwriaeth o gyllidebu a chynaliadwyedd hefyd, er enghraifft sut i brynu ffabrigau ar gyfer prosiectau gwnïo yn rhad, neu'n cael hyd i ffabrigau mewn siopau elusen. Mae llawer o ddysgwyr mewn cyrsiau medrau digidol yn defnyddio eu medrau i gadw mewn cysylltiad â pherthnasau. Gall llawer ohonynt ddangos yr effaith y mae eu dysgu'n ei chael ar fywyd y tu allan i'r cwrs, er enghraifft trwy allu geirbrosesu dogfennau, anfon cofnodion cyfarfodydd sefydliadau cymunedol trwy'r e-bost at aelodau, neu ddod o hyd i'r cynhyrchion gwerth gorau trwy ddefnyddio chwiliadau ar-lein.

Mae bron pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael trafferth mewn addysg yn y gorffennol, yn fodlon ac yn hyderus i esbonio sut mae eu cwrs yn cefnogi eu lles a'u datblygiad personol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn teimlo nad yw'r bartneriaeth bob amser yn ymateb i'w hadborth, ac y byddent yn elwa ar ystod ehangach o gyrsiau yn y gymuned. Mewn ychydig o achosion, mae amseroedd dechrau neu amseroedd gorffen rhaglenni, sydd â'r nod o ailymgysylltu â chyflogaeth, yn golygu bod dysgwyr sy'n rhieni yn colli dechrau neu ddiwedd cyrsiau er mwyn casglu eu plant o'r ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn cynllunio'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn addysgu gwersi â dilyniant da a chyflymdra da, sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn ddilyniannol. Mae tiwtoriaid SSIE yn cynllunio ac yn strwythuro eu gwersi yn fuddiol, fel y gall dysgwyr ddatblygu'r pedwar medr iaith, sef gwrando, darllen, ysgrifennu a siarad trwy weithgareddau medrau ar wahân a gweithgareddau cymysg.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â'u dysgwyr ac yn ennyn eu diddordeb. Maent yn darparu adborth defnyddiol a chalonogol ar lafar, er enghraifft mewn dosbarthiadau SSIE a llythrennedd, i ddatblygu ynganu, strwythur brawddeg a geirfa. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn monitro ac yn cynorthwyo dysgwyr yn dda wrth iddynt weithio, ac yn darparu hyfforddiant unigol buddiol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw tiwtoriaid yn monitro gwaith annibynnol dysgwyr yn y dosbarth yn ddigon effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn marcio gwaith dysgwyr yn rheolaidd, ac maent yn darparu adborth ysgrifenedig buddiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw adborth ysgrifenedig tiwtoriaid yn darparu arweiniad digon clir i ddysgwyr am eu camau nesaf mewn dysgu.

Mae llawer o diwtoriaid yn ymgorffori medrau digidol yn fedrus ac yn dda yn eu sesiynau. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn

dosbarth SSIE i ddefnyddio dyfeisiau symudol i ymchwilio i destunau yn y dosbarth. Mewn cyrsiau fel clytwaith, mae tiwtoriaid yn ymgorffori medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwaith dosbarth, er enghraifft trwy fesur a chyfrifo'r defnydd sydd ei angen ar gyfer clytiau.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod eang o adnoddau yn effeithiol i gefnogi a gwella dysgu, ac yn manteisio ar ddyfeisiau symudol dysgwyr, byrddau gwyn rhyngweithiol a meddalwedd addysgu fuddiol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o leoliadau, mae diffyg cysylltedd Wi-Fi yn rhwystro cyfle dysgwyr i ddefnyddio eu dyfeisiau symudol yn llawn mewn sesiynau llythrennedd digidol.

Mae gan bron bob un o'r tiwtoriaid daflenni cyfoes i olrhain dysgwyr, sy'n dangos y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud. Defnyddiant gynlluniau dysgu'n effeithiol i helpu dysgwyr i adolygu eu cynnydd eu hunain.

Mewn dosbarthiadau SSIE, mae'r cwricwlwm yn darparu diddordeb a her sy'n briodol i ddiddordebau a galluoedd dysgwyr sy'n oedolion. Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ennyn eu diddordeb yn eu cymuned, fel cynllunio gweithgaredd i godi arian ar gyfer elusen. Mae tiwtoriaid yn cynllunio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr mewn amrywiaeth o destunau, fel gwyliau (Noson Tân Gwyllt, Dydd Santes Dwynwen, y Nadolig), byw yng Nghymru a'r DU, y newid yn yr hinsawdd ac addysg. Mae amserlennu sesiynau galw i mewn ar gyfer dysgwyr SSIE cyn sesiynau a addysgir yn rhoi amser defnyddiol i ddysgwyr adolygu iaith flaenorol a deall iaith newydd ar eu cyflymdra eu hunain. Mae peilot arloesol o realiti rhithwir fel offeryn addysgu yn helpu gwella a bywiogi'r cwricwlwm a dangos defnydd o iaith mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd, er enghraifft trwy alluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn teithiau dinas rhithwir cyn ymweld â'r ddinas ei hun. Mae'r bartneriaeth yn darparu ystod briodol o weithgareddau sy'n cefnogi dysgu, fel nosweithiau rhyngwladol lle mae dysgwyr SSIE a'r cyhoedd yn profi ac yn gwerthfawrogi bwyd, iaith a diwylliant ei gilydd.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod briodol o gyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a SSIE, yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. At ei gilydd, mae'n recriwtio'n dda ar gyfer y cyrsiau hyn. Mae'r bartneriaeth yn cynnig llawer o'i darpariaeth o ran medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a SSIE yn y prif ganolfannau, fel Bangor, Caergybi a Chaernarfon, tra bod y ddarpariaeth mewn canolfannau cymunedol eraill yn llawer mwy cyfyngedig. Mae hyn yn golygu bod rhaid i leiafrif o ddysgwyr deithio cryn bellter i fynychu dosbarthiadau. Mewn ychydig o achosion, er enghraifft ar gyfer cyrsiau 'Dychwelyd i ddysgu' a 'Cyflwyniad i ofal plant', mae'r bartneriaeth yn addasu'r amseroedd y mae sesiynau'n dechrau i alluogi dysgwyr sy'n rhieni i fynd â'u plant i'r ysgol, a'u casglu oddi yno. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn gwneud hyn ar gyfer yr holl ddosbarthiadau, ac mewn ychydig o achosion, mae hyn yn golygu bod dysgwyr sy'n rhieni yn cyrraedd yn hwyr neu'n gorfod gadael yn gynnar, ac felly maent yn colli rhannau o'r sesiynau ac yn tarfu ar lif y dosbarth.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda nifer fach o bartneriaid eraill i ddarparu ychydig o gyfleoedd ychwanegol ar gyfer dysgwyr mewn cymunedau lleol. Mae'n darparu nifer fach o ddosbarthiadau adfer costau mewn gwnïo, sy'n boblogaidd ac y mae rhestrau aros amdanynt. Mae un partner yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i gyflwyno rhaglenni bwyta'n iach i ddefnyddwyr gwasanaeth a staff, tra bod partner arall yn

darparu cyfleoedd ar y cyd â'r llyfrgell i rieni a phlant ddysgu codio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, er bod y rhain yn rhaglenni defnyddiol, maent yn gyfyngedig o ran nifer ac amrywiaeth.

Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae'r bartneriaeth yn helpu dysgwyr a thiwtoriaid i droi cyrsiau sy'n hirsefydledig ac y mae'r dysgwyr yn eu gwerthfawrogi am resymau cymdeithasol, yn glybiau, gan felly ryddhau cyllid yn ddefnyddiol i gefnogi dosbarthiadau newydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth yn cynnal ffocws clir ar ddatblygu hyder, iechyd a lles dysgwyr, a'u synnwyr o gyfrifoldeb cymdeithasol.

Mae tiwtoriaid yn amlygu pwysigrwydd mynychu pob sesiwn, a sut mae hyn yn cysylltu â llwyddiant. Maent yn ystyriol i ymrwymiadau dysgwyr yn eu bywydau bob dydd, ac fel arfer yn hyblyg wrth weithio i helpu dysgwyr i gael y gorau o'u sesiynau. Mae hyn yn helpu sicrhau presenoldeb cryf gan ddysgwyr.

Mae'r bartneriaeth yn nodi anghenion cymorth dysgwyr trwy gyfweliadau cais ac arsylwadau tiwtoriaid, yn ogystal â thrwy hunan-ddatganiadau dysgwyr. Mae'r bartneriaeth wedi darparu hyfforddiant defnyddiol i helpu tiwtoriaid i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer nodi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr a monitro cynnydd y dysgwyr hyn yn anghyson ar draws y bartneriaeth. Mewn ychydig o achosion, mae'r bartneriaeth yn defnyddio cyllid cymorth dysgu ychwanegol i gynorthwyo dysgwyr perthnasol yn uniongyrchol. At ei gilydd, nid yw'r bartneriaeth yn dyrannu cyllid cymorth dysgu ychwanegol yn ddigon da i gynorthwyo dysgwyr sy'n oedolion sy'n gymwys.

Mae'r bartneriaeth yn darparu cymorth gwerthfawr i helpu dysgwyr i oresgyn ystod o rwystrau rhag dysgu, a helpu'u datblygiad personol. Mae tiwtoriaid yn mynd i'r afael yn sensitif ag anghenion dysgwyr yn effeithiol fel rhan o sesiynau, gan eu helpu i ddatblygu a goresgyn amrywiaeth eang o broblemau, gan gynnwys gorbryder cymdeithasol, problemau llythrennedd a namau ar y clyw. Maent yn dathlu cyflawniadau dysgwyr sy'n agored i niwed i helpu meithrin eu hunan-barch. Mae tiwtoriaid yn defnyddio timau gwasanaethau dysgwyr y bartneriaeth yn briodol i gynorthwyo dysgwyr â phroblemau penodol, fel camddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Mae'r staff hyn yn gweithio gydag asiantaethau cymorth arbenigol yn briodol i helpu dysgwyr.

Mae'r bartneriaeth yn rhoi cyngor defnyddiol i ddysgwyr am gyllid myfyrwyr, a sut i wneud cais am gymorth ariannol. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn darparu grantiau tuag at gostau cyrsiau, teithio a gofal plant ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu caledi ariannol.

Mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo ei darpariaeth trwy bosteri a chyfryngau cymdeithasol. Daw llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd dysgu hyn ar sail argymhellion, ac ar gyfer cyrsiau perthnasol, caiff tua hanner y dysgwyr eu cyfeirio gan eu canolfan waith leol. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn darparu ffordd gyfleus i ddysgwyr ddod o hyd i fanylion am yr holl gyfleoedd dysgu sydd ar gael yn eu hardaloedd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau

ymsefydlu defnyddiol pan fyddant yn ymuno â'u dosbarthiadau. Mae trefniadau ar gyfer cyfnod ymsefydlu dysgwyr sy'n hwyr yn cofrestru yn anghyson ar draws y bartneriaeth, ac o ganlyniad, gallai dysgwyr sy'n hwyr yn cofrestru golli allan ar wybodaeth ddefnyddiol.

Mae mwyafrif o diwtoriaid yn manteisio ar raglen o weithgareddau cyfoethogi i annog dysgwyr i ystyried testunau pwysig fel amrywiaeth ddiwylliannol a bwyta'n iach. Mewn ychydig o sesiynau, mae gweithgareddau wedi'u cynllunio yn integreiddio byw yn iach yn y dysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr SSIE yn trafod diet iach fel rhan o'u trafodaethau yn Saesneg am fwyd. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn darparu sesiynau gwerthfawr i gynorthwyo dysgwyr sy'n adfer ar ôl camddefnyddio sylweddau.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder. Mae tiwtoriaid yn codi ymwybyddiaeth dysgwyr am gadw'n ddiogel, gan gynnwys radicaleiddio ac eithafiaeth, fel rhan o weithgareddau ymsefydlu, ac mae'r bartneriaeth wedi datblygu llenyddiaeth gyfeirio ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y bartneriaeth weledigaeth glir, gyda nodau, amcanion a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio'n addas ar ddiwallu anghenion llawer o ddysgwyr. Mae'r bartneriaeth wedi sefydlu ethos o gydweithio wrth gyflwyno cyrsiau mewn meysydd blaenoriaeth allweddol medrau hanfodol a SSIE. Fodd bynnag, nid yw'r weledigaeth hon yn ymestyn yn ddigon llawn i gynnwys cynnig ehangach ei phartneriaid sydd ar gael yn yr ardal.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft o ran cyfrannu tuag at bolisi Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg ôl-orfodol. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn rhagweithiol o ran mynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth leol, er enghraifft yn y diwydiant awyrenegol, yn dilyn ansicrwydd ynghylch datblygu pŵer niwclear yn yr ardal yn y dyfodol.

Ar y cyfan, mae rheolwyr yn deall eu rolau'n dda ac yn gweithio'n effeithiol i yrru blaenoriaethau strategol a chynllunio gwelliant ymlaen. Ceir cylch clir o weithgareddau sicrhau ansawdd gyda strwythurau a phrosesau priodol. Er enghraifft, mae'r grwpiau gweithredol, y grwpiau ansawdd a'r grwpiau strategol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio a goruchwylio darpariaeth a sicrhau ansawdd. Mae'r grwpiau hyn yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her yn y ffordd y maent yn dadansoddi safonau a chynllunio darpariaeth. Fodd bynnag, ceir cyfranogiad cyfyngedig gan ystod ddigon eang o sefydliadau. Ar y cyfan, mae gan y bartneriaeth olwg strategol gyfyngedig ar ddarpariaeth y tu allan i feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, ac o ganlyniad, mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod gyfyng yn unig o ddarpariaeth gymunedol.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gosod disgwyliadau priodol o uchel ar gyfer staff a dysgwyr, ac mae'r rhan fwyaf o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir, ac yn eu cyflawni'n dda. At ei gilydd, mae arweinwyr wedi cynnal safonau uchel o ran y ddarpariaeth, ac maent yn gwybod beth yw eu prif gryfderau a'u

meysydd i'w gwella.  Mae'r bartneriaeth yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella mewn graddfeydd amser penodol a realistig, ac mae'n dyrannu cyfrifoldeb ar gyfer eu cyflawni yn briodol.  Mewn ychydig o agweddau, nid yw hunanasesiad y darparwr yn adlewyrchu ei ddarpariaeth yn ddigon cywir, er enghraifft ar yr effaith ar les dysgwyr.

Mae'r bartneriaeth yn gweithredu system drylwyr o arsylwadau addysgu a dysgu. Mae gan y prif ddarparwyr gylchoedd arsylwi sydd wedi'u diffinio'n glir, gan arsylwi'r holl diwtoriaid naill ai mewn cyfnod o flwyddyn neu ddwy flynedd.  Mae arsylwadau'n nodi arfer dda a meysydd i'w gwella yn addas, ac mae hyn yn llywio'r rhaglen dysgu proffesiynol parhaus, er enghraifft o ran hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg ddigidol i gyfoethogi profiadau dysgu dysgwyr.  Mae aelodau'r brif bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ymgorffori'r elfennau gorau o'u harsylwadau sicrhau ansawdd priodol, a monitro effaith gweithgareddau dysgu proffesiynol ar ddysgu ac addysgu. Mae'r bartneriaeth yn cynnal a gwella safonau yn effeithiol.

Mae'r bartneriaeth yn darparu gweithgareddau dysgu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer staff, gan gynnwys themâu fel addysgu dwyieithog, iechyd a lles.  Mae wrthi'n gwella medrau aelodau staff ar hyn o bryd, i nodi'r bygythiad cynyddol yn sgil camfanteisio ar ddysgwyr sy'n agored i niwed trwy 'linellau cyffuriau' gan gangiau troseddu.  Mae tiwtoriaid yn trafod eu hanghenion hyfforddi gyda rheolwyr mewn arfarniadau, a gosodir targedau perthnasol ar gyfer tiwtoriaid y mae angen iddynt wella'u perfformiad.  Mae gweithdrefnau priodol ar waith i reoli tiwtoriaid nad ydynt yn cyflawni eu hymrwymiadau.

Mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth gadarn o'i hincwm a'i gwariant, ac mae'n rheoli ei chyllideb ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn briodol.  Mewn ychydig o achosion, mae'r bartneriaeth wedi llwyddo i gael ffynonellau cyllid newydd, fel grant datblygu digidol gan Lywodraeth Cymru.  Mae gan y bartneriaeth lefelau priodol o staff â chymwysterau addas ac adnoddau i gyflwyno'r ddarpariaeth.  Ar y cyfan, mae adeiladau yn ddigonol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu,

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/02/2020